

Defnyddio Siart ABieC i Nodi Sbardunau Ymddygiad Heriol mewn Plant ag Awtistiaeth

Er mwyn nodi sbardunau neu bwrpas ymddygiad, bydd angen i chi gofnodi ymddygiad a'r hyn sy'n digwydd cyn ac ar ôl hynny dros gyfnod o 1 – 2 wythnos.

Bydd angen i chi ddefnyddio siart ABieC i gofnodi ymddygiad, gellir lawrlwytho siartiau yn www.ASDinfoWales.co.uk/advice-sheets, neu gallwch wneud un eich hun gan ddefnyddio'r penawdau hyn:

Dyddiad ac amser	Rhagflaenydd (beth sy'n digwydd cyn yr ymddygiad)	Ymddygiad	Canlyniad

Rhagflaenydd (yr hyn sy'n digwydd cyn hynny) — Dyma'r sbardun am yr ymddygiad yn aml. Gall hyn weithiau fod yn syml fel rhywun yn dweud 'na' i gais ond mewn unigolion ag ASD gall fod yn fwy anodd ei adnabod am fod yr achos yn gallu ymwneud â materion synhwyrdd fel synau uchel neu synau penodol neu'n ymwneud â'r angen am arferion rhagweladwy. **Mae'n bwysig felly eich bod yn cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol yn cynnwys amser, yr amgylchedd, yr hyn a ddywedwyd, pwy oedd yn bresennol ac ati.**

Ymddygiad - Yn yr adran hon bydd angen i chi gofnodi manylion yr ymddygiad, heb unrhyw ragfarn na rhagdybiaethau. Disgrifiwch yr ymddygiad yn hytrach na dod i gasgliadau gan fod llawer o unigolion ag ASD yn cael anhawster yn mynegi eu teimladau mewn ffordd briodol. Er enghraifft, gall ofn r ymddangos fel pryder ond gallai hefyd ymddangos fel ymddygiad ailadroddus neu ymddygiad ymosodol.

Canlyniad (yr hyn sy'n digwydd wedi hynny) — Yn aml gall y canlyniad neu'r effaith roi syniad o'r hyn y mae'r plentyn yn ei deimlo, trwy ddangos beth mae'r plentyn yn ceisio ei gyflawni. Gall canlyniadau weithiau atgyfnerthu'r ymddygiad. Cofnodwch yn union beth sy'n digwydd yn cynnwys yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud a'r hyn y mae unrhyw blant neu oedolion eraill yn ei wneud.